

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion Cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2023..

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G. Ball, S. Campbell, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, D. Dutch a V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

604 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

605 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd) a M.J.G. Morgan; a H. Smith (Cynrychiolydd o Weithgor / Panel Tenantiaid).

606 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

607 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd W.A. Hennessy ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai Cychwynnol (CRT) Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 a Chynigion 2024/25. Natur ei ddiddordeb oedd ei fod yn denant Cyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid oedd yn rhagfarnu yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) o Gyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Hennessy yn y cyfarfod tra'n ystyried yr eitem hon.

Gwnaeth y Cynghorydd J. Aviet ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai Cychwynnol (CRT) Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 a Chynigion 2024/25. Natur ei diddordeb oedd ei bod yn denant Cyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid oedd yn rhagfarnu yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) o Gyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra'n ystyried yr eitem hon.

Cynghorydd S.J. Haines ddatganiad o fuddiant yn Eitem 7 ar yr Agenda – Monitro Cyfalaf ar Gyfer y Cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi, 2023. Natur ei fuddiant oedd ei fod yn Aelod o Bwyllgor Canolfan Gymunedol Paul Lewis, Sain Tathan. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid oedd yn rhagfarnu o dan 19.3 o Gyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Haines yn y cyfarfod tra'n ystyried yr eitem hon.

Cynghorydd H.M. Payne ddatganiad fuddiant yn Eitem 10 ar yr Agenda – Ymgynghoriad – Papur Gwyn Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ganddi oddefeb i siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn unig pan drafodwyd materion yn ymwneud â thai a digartrefedd yn ymwneud â chyllid ac eiddo o ystyried rôl y Cynghorydd ar gyfer Llamau (paragraffau (c), (d), (f) ac (h) o'r rheoliadau perthnasol). Felly, arhosodd y Cynghorydd Payne yn y cyfarfod tra'n ystyried yr eitem hon.

608 CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI CYCHWYNNOL (CRT) CYLLIDEB DDIWYGIEDIG 2023/24 A CHYNIGION 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023 gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, a'i ddiben oedd ystyried cyllideb ddiwygiedig 2023/24 a'r cynigion cychwynnol ar gyfer 2024/25 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor yr adroddiad a'r sioe sleidiau atodedig a oedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cyfrif wedi'i glustnodi oedd y CRT ac fe'i hariannwyd gan ffrydiau incwm rhent;
- Cafodd y cynnydd blynyddol mewn rhent ei gapio gan Lywodraeth Cymru (LIC);
- Er mwyn cynyddu rhenti o 1 Ebrill, mae'n rhaid i'r Cyngor osod rhenti ar gyfer 2024/25 ym mis Ionawr 2024 i sicrhau bod digon o rybudd yn cael ei roi;
- Roedd y llythyr hysbysu am rent wedi'i dderbyn gan LIC a nododd mai'r codiad rhent uchaf oedd 6.7% ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn seiliedig ar y mynegai prisiau defnyddwyr ym mis Medi 2023;
- Ar hyn o bryd roedd Cynllun Busnes Tai 2023/24 yn modelu cynnydd o 5.5% ar gyfer 2024/25. Byddai unrhyw incwm ychwanegol o gynnydd dros y 5.5% yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at gyllid Datgarboneiddio, Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC23) ac Adeiladau Newydd;
- Roedd cynllun Busnes Tai 2024/25 yn cael ei adolygu ac roedd ganddo ddyddiad cyflwyno o 31 Mawrth 2024 ond byddai'n cael ei gwblhau ochr yn ochr â'r ymarfer gosod rhent ym mis Ionawr 2024;

- Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd am y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24 yn ogystal â'r un ddiwygiedig a chyllideb arfaethedig gychwynnol 2024/25. Trafodwyd hefyd gronfeydd wrth gefn y CRT. Amlinellwyd y cynnydd a'r heriau cysylltiedig yn y meysydd hyn i'r Pwyllgor, gan gynnwys yr heriau cysylltiedig o ran cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf a'i phrosiectau.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad, yr adroddiad atodedig a'r sleidiau cysylltiedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn rhent ar gyfer Bro Morgannwg o 5.5% a'r hyn yr oedd hyn yn cyfateb iddo o ran swm wythnosol i denantiaid Cyngor Bro Morgannwg, esboniwyd y byddai mwy o wybodaeth a dadansoddiad o sut olwg fyddai ar gynnydd wythnosol ar 5.5% yn ogystal â chap Llywodraeth Cymru o 6.7% yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.
- O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn rhent ar gyfer 2024/25, y tybir ar hyn o bryd ei fod yn 5.5%, a phryd y byddai hyn yn debygol o gael ei gadarnhau, esboniwyd y byddai'r cynnydd mewn rhent wedi'i gadarnhau yn cael ei gyflwyno trwy adroddiad y CRT ychydig ar ôl y Nadolig gyda'r adolygiad cychwynnol arfaethedig yng Nghraffu ac yna ymlaen i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.
- Cododd y Cynghorydd Haines ymholiadau ynghylch costau gweithwyr disgwylidiedig a'r hyn a olygwyd gan newidiadau staff eraill fel rhan o'r adroddiad hwn ac o ran costau llys a oedd wedi gweld gostyngiad sylweddol oherwydd rhesymau cyfreithiol. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai fod costau llys ac ôl-ddyledion rhent ynghlwm â chanlyniad cytundeb a oedd ar waith gyda LIC yn ymwneud â chynnydd blynyddol mewn rhent a lofnodwyd gan yr holl Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Cyngor Bro Morgannwg, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCau) yng Nghymru. Hefyd yn gysylltiedig â hyn roedd y pwynt a godwyd ynghylch costau staff eraill a oedd yn debygol o adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y staff yn y Tîm Adennill Incwm a oedd yn cael ei brosesu ar hyn o bryd ac yn golygu cyflogi dau aelod ychwanegol o staff i'r tîm. Yn ogystal, roedd effaith yr adnoddau ychwanegol hynny a'r capasiti ychwanegol o fewn y tîm yn golygu y gallai'r Cyngor reoli a mynd i'r afael â'r materion a wynebier gan y tenantiaid hynny a oedd dan bwysau incwm difrifol a chyllid yn well a helpodd yn ei dro i liniaru unrhyw gynnydd posibl mewn ôl-ddyledion rhent a cholli tenantiaethau.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Campbell at y gwerthiannau tir yng nghyllid y CRT ac at nifer yr Eiddo Gwag sydd ar hyn o bryd yn ardal Bro Morgannwg a'u heffaith ar y CRT. Mewn ymateb, esboniwyd bod y gwerthiannau tir yn yr adroddiad yn cyfeirio at dir a brynwyd gan y Cyngor yn hytrach na thir a werthwyd. O ran Eiddo Gwag, esboniwyd bod 220 o Eiddo Gwag ar gyfartaledd a ddaeth ar gael yn ystod y flwyddyn a ddisbarthwyd fel mân Eiddo Gwag neu Eiddo Gwag mawr, gyda'r gallu i adnewyddu mân Eiddo Gwag mewn tua 20 diwrnod ond Eiddo Gwag Mawr yn gofyn am fwy o amser i ddod yn eiddo y gellir byw ynddynt, ond nid oedd llawer o'r rhain i'w cael. Gallai Eiddo Gwag mawr ofyn am symiau sylweddol o arian i'w cywiro oherwydd atgyweiriadau strwythurol sylweddol ac er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni safonau SATC. Ar hyn o bryd roedd tua 3 neu 4 Eiddo Gwag Mawr yn y Fro. Gellid rhoi rhestr fwy diffiniol o eiddo o'r fath i'r Pwyllgor. Ar hyn o

bryd roedd tua 35 o Eiddo Gwag gyda rhai o'r rheiny yn y categori mawr ond roedd y rhan fwyaf ohonynt yn fân Eiddo Gwag. Roedd angen mân atgyweiriadau ar y mân Eiddo Gwag ac roedd y rhain yn eiddo a oedd yn cael eu hatgyweirio neu o dan gynnig yn aros i berson symud i mewn am gyfnod byr yn unig ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn aros yn wag oherwydd y galw am yr eiddo hyn.

- O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy ynghylch costau llys a faint o achosion llys cyfredol a oedd yn parhau ynghylch polisi rhent, esboniwyd bod moratoriwm ar hyn o bryd ar bobl yn cael eu troi allan o'u cartrefi y cytunwyd arno ochr yn ochr â LIC a oedd yn golygu na fyddai'r Fro nac Awdurdodau Lleol eraill yn troi pobl allan o'u cartrefi i aelwydydd digartrefedd i geisio adennill costau rhent. Yn flaenorol, byddai'r Cyngor wedi bod yn rhan o tua 50-60 o achosion y gellid eu cymryd i'r llys o fewn blwyddyn gyda dim ond 3 neu 4 achos o'r fath yn cyrraedd cam troi allan. Soniwyd hefyd am yr heriau cyfredol i denantiaid ynghylch hawliadau Credyd Cynhwysol lle na fyddai eu taliadau cyntaf yn cael eu derbyn tan bum wythnos ar ôl iddynt hawlio gan olygu na allai tenantiaid dalu ymlaen llaw am rent a byddai'n rhaid i'r Cyngor weithio gyda thenantiaid i dalu'r swm hwn dros gyfnod o amser er mwyn adfachu unrhyw ôl-ddyledion.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cyllideb ddiwygiedig 2023/24 a chynigion cychwynnol ar gyfer 2024/25.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

609 ADNEWYDDU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/24 I 2028/29 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023 gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, a'i ddiben oedd adolygu'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran pennu Cylch Cynllunio Cyllideb 2024/25 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 i 2028/29.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol yr adroddiad a oedd yn cynnwys:

- O ran cylch cynllunio'r gyllideb, roedd y Cyngor yn wynebu cyllideb heriol iawn wrth symud ymlaen, gan gynnwys proses hir a oedd yn cynnwys y strategaeth ariannol hyd at gynigion cychwynnol, ymgynghori cychwynnol a chymeradwyo'r gyllideb yn derfynol.
- Ystyriodd y strategaeth ariannol y pwysau cost niferus a oedd yn wynebu'r Cyngor yn gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'i ffocws ar gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys meysydd gofal cymdeithasol ac ynghylch digartrefedd a thai. Fel rhan o'r broses hon, roedd angen ystyried arbedion a chyllid cynaliadwy, y lefel briodol o gronfeydd wrth

gefn, cynhyrchu refeniw treth lleol a ffioedd a chostau er mwyn sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd, hygyrchedd a chyllid tryloyw a sicrhau'r gwerth gorau.

- O ran yr adnewyddu Tymor Canolig, byddai hyn yn heriol iawn ar gyfer 2024/25 ac yn y tymor canolig. Cyfeiriwyd at heriau allweddol gan gynnwys grant LIC, Treth Gyngor a'r bwlch cyffredinol sylweddol o ran cyllid y Cyngor oherwydd pwysau cost eithriadol fel gofal cymdeithasol, cyflog, cyllidebau ysgolion ac mewn meysydd sy'n ymwneud â'r amgylchedd a thai.
- O ran y camau nesaf, rhoddwyd i'r Pwyllgor y cerrig milltir allweddol yn y broses dros gyfnod mis Tachwedd - mis Chwefror / Mawrth 2023/24 a oedd yn amrywio o gyllideb Llywodraeth y DU hyd at setliad LIC, gosod rhent y CRT a chymeradwyo'r Cynllun Busnes a'i adolygu gan y Cyngor Llawn hyd at gymeradwyo'r Gyllideb Derfynol ddrafft.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby fod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd wrth symud ymlaen o ran pwysau ariannol a'r dewisiadau a'r penderfyniadau dilynol y bu'n rhaid eu gwneud. Cyfeiriodd hefyd at feysydd yr adroddiad ynghylch adolygiad y Cyngor o incwm a gafwyd o wahanol ffynonellau ynghyd â'r angen i ystyried strwythur a chyfuniad gwasanaethau er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf am arian. O ran yr incwm a gafwyd drwy werthiannau, ffioedd a thaliadau, ac ati, a'r amserlenni perthnasol, esboniwyd bod swyddogion y Cyngor wedi cael cyngor wrth ystyried cynyddu ffioedd a thaliadau o bosibl, yn ogystal ag ystyried cynyddu'r rhain yn unol â chwyddiant, os yw'r rhain hefyd yn ymwneud â gwasanaeth dewisol, fod angen i'r incwm o'r ffioedd a'r taliadau hynny hefyd fod yn talu cost lawn darparu'r gwasanaeth hwnnw. I gefnogi hyn, sefydlwyd nifer o weithgorau cyllideb ar draws y Gyfarwyddiaethau i edrych ar hyn. Yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn roedd nifer o strategaethau eisoes ar waith yn ymwneud â sylfaen y Dreth Gyngor fel bod nifer y trigolion y codir Treth Gyngor arnynt yn cynyddu a bod gwelliant mewn cyfraddau adennill. Ar ben hynny, roedd adolygiad yn cael ei gynnal ynghylch costau benthyca'r Cyngor a llog a enillwyd ar fuddsoddiadau a chronfeydd wrth gefn. Roedd y rhain a chynigion eraill yn cael eu rhoi ynghyd fel rhan o'r gyllideb a fyddai'n cynnwys ymgynghori â Chraffu maes o law.
- O ran ymholiad dilynol y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch y pwysau ar y gyllideb o ganlyniad i ddefnyddio gwelyau a brechwast a mathau eraill o lety dros dro, esboniwyd bod nifer sylweddol o aelwydydd o hyd a oedd angen byw mewn llety dros dro, gan gynnwys gwelyau a brechwast a bod pwysau o'r fath yn parhau hyd yn oed wrth ychwanegu rhywfaint o weithgarwch LCCau adeilad newydd dros y 12 mis diwethaf. Ar hyn o bryd nid oedd y niferoedd hyn yn cyrraedd man gwastad, ac roedd y Cyngor yn bwriadu dod o hyd i lety dros dro amgen rhatach i helpu i leihau'r pwysau ariannol yn y maes hwn. Fel rhan o hyn, roedd y Cyngor yn siarad â nifer o ddarparwyr o fewn ffiniau Awdurdod Lleol a'r tu allan iddynt er mwyn ehangu faint o lety a allai fod ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r materion parhaus sy'n ymwneud â thai a digartrefedd. Gwelwyd pwysau o'r fath hefyd mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Roedd y Cyngor hefyd yn edrych ar fesurau eraill er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol fel llety a rennir, rhedeg ei gynllun pryddlesu

preifat ei hun yn ogystal â gweithio gyda chydweithwyr mewn perthynas â chartrefi gwag ac i edrych ar weithgarwch caffael mewn perthynas â gwerthu eiddo preifat i'r Awdurdod Lleol. Ar y cam hwn nid oedd unrhyw arwydd y byddai LIC yn rhoi cymorth ariannol pellach mewn perthynas â llety dros dro ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd Cadeirydd CLILC wedi ysgrifennu at LIC yn gofyn am rywfaint o hyblygrwydd o ran ffrydiau grant cyfredol y gellid eu dargyfeirio i lety dros dro yn hytrach na chynlluniau ataliol a oedd yn dod yn fwyfwy anodd i'w gwneud oherwydd nifer y bobl ddigartref ag angen am lety dros dro ar hyn o bryd.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi Adnewyddu Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2028/29.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirada, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

610 ADRODDIAD CRYNO AR DDIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023 gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai, a'i ddiben oedd rhoi crynodeb o'r gweithgarwch a wnaed mewn perthynas â threfniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu ar draws y Cyngor a rhoi sicrwydd ynghylch gweithgarwch diogelu sy'n digwydd ar draws y Cyngor.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y canlynol:

- Cyfrifoldeb Corfforaethol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl.
- Rhoddodd yr adroddiad hwn ddiweddariad canol blwyddyn ar effeithiolrwydd y trefniadau hynny a'r datblygiadau hyd yma.
- Amlinelliad o'r Grŵp Diogelu Corfforaethol (GDC), a sicrhaodd fod craffu a sicrwydd o ran trefniadau diogelu corfforaethol, gan gynnwys monitro 'dangosfwrdd' diogelu, gyda chyfres o ddata wedi'i gasglu ar weithgareddau allweddol y Cyngor, adolygiad o hyfforddiant diogelu a deunyddiau cysylltiedig, a'i waith gyda Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn ogystal â chyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Cafodd Aelodau'r Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth Gorfforaethol, adolygu a diweddarau Polisi Corfforaethol, craffu a sicrwydd, recriwtio mwy diogel a hyfforddiant mewn perthynas â diogelu, yn ogystal â'r ymdrechion o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a gynhaliwyd gan y Cyngor.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Campbell am natur anorfodol yr hyfforddiant a wnaed gan Lywodraethwyr Ysgol ac a oedd hyn yn benderfyniad gan y Cyngor neu LIC, esboniwyd bod y GDC yn adolygu hyn ar gyfer Bro Morgannwg, i weld a ellid gwneud hyn yn hyfforddiant gorfodol neu o leiaf i gael mwy o bwyslais ac anogaeth i lywodraethwyr ysgol ymgymryd â hyfforddiant perthnasol.
- Gofynnodd y Cynghorydd Payne am fesurau diogelu corfforaethol a thai, ac a oedd y set ddata newydd a gafodd ei fonitro gan y GDC yn cynnwys atgyfeiriadau. Dywedwyd wrth y Cynghorydd fod gwybodaeth am atgyfeiriadau drwy Amgylchedd a Thai wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol. Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau drwy'r llwybr digartrefedd ac ar gyfer cleientiaid agored i niwed mewn llety dros dro, lle'r oedd mesurau diogelu ar waith yn weithredol. Byddai'r data perthnasol yn cael ei rannu gyda'r Cynghorydd a'r Aelodau maes o law.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r cyfeiriad a'r adroddiad Cabinet atodedig ar y gweithgaredd a wnaed mewn perthynas â threfniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu ar draws y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad i roi sicrwydd ynghylch gweithgarwch diogelu sy'n digwydd ar draws y Cyngor yn ogystal â sicrhau bod lefel eang o oruchwyliaeth gan Aelodau.

611 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI, 2023 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, ar y cyd â'r Rheolwr Cymorth Cyllid, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynoded o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad. Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £129.298m, a ddisgrifiwyd fel un hynod uchelgeisiol. Fel y gwelwyd o'r blynyddoedd blaenorol, roedd yn hynod heriol cyflawni rhaglen o'r maint hwn yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd cyfredol. Rhagwelwyd mai £107.653m fyddai'r alldro diwygiedig.

Oherwydd y sefyllfa ariannol gyfredol roedd Rhaglen Gyfalaf y Cyngor wedi cael ei hadolygu. Gofynnodd yr adroddiad am newidiadau a fyddai'n rhyddhau cyllid yn ôl i gronfeydd wrth gefn y Cyngor, derbyniadau cyfalaf a ffynonellau eraill o gyllid cyfalaf i sicrhau bod cyllid yn fwy cynaliadwy a bod modd cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf.

Cynigiwyd dileu rhai cynlluniau heb eu cyflawni a throsglwyddo arian i helpu i liniaru pwysau refeniw blynyddoedd i ddod, sef cyfanswm o £5.545m.

O ran y rhannau hynny o'r Rhaglen Gyfalaf o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, cyfeiriwyd at y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) a'r Rhaglen Gwella Tai – Adeiladau Newydd, yn ymwneud â'r £700k na chafodd ei ymrwymo yn ystod y flwyddyn ac a gafodd ei dynnu o'r rhaglen gyfalaf i ryddhau cyllid yn ôl i gronfeydd wrth gefn a derbyniadau cyfalaf, a llithriad o £3.8m yng nghyllideb y cynllun adeiladau newydd i Raglen Gyfalaf 2024/25 (oherwydd heriau caffael ac adnoddau) yn y drefn honno. Soniwyd hefyd am y cynnydd ar gyllid cyfalaf a gweithredu prosiectau amrywiol fel y Grantiau Cartrefi Gwag a Gwella Diogelwch.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran pryderon y Cynghorydd Haines ynghylch y GCA, rhoddwyd sicrwydd bod galw am y grant hwn a bod ymdrechion yn cael eu gwneud gan y Cyngor i weithredu'r grantiau hyn a gwario'r arian ond roedd y broblem yn ymwneud â heriau wrth gomisiynu contractwyr i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol. O ran ei ymholiadau eraill ynglŷn â Chanolfan Paul Lewis a Llandŵ a Chanolfan Ailgyrchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Newydd, byddai angen i'r rhain gael sylw gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.
- O ran ymholiadau'r Cynghorydd Hennessy ar gynnydd prosiect Clinig Colcot a datblygiad tai Eagleswell, roedd y rhain yn gwneud cynnydd da ac ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i'w cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb. Byddai ymweliad safle ar gyfer yr ail un yn cael ei drefnu.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Atodiad 1 i'r adroddiad sydd ynghlwm.
- (2) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad sydd ynghlwm.
- (3) Y DYLID nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 ac y manylwyd arnynt yng nghorff yr adroddiad o baragraff 2.12 ymlaen.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

612 CHWARTER 2 MONITRO REFENIW 2023/24 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, ar y cyd â'r Rheolwr Cymorth Cyllid, wybod i'r Pwyllgor am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 2 ar gyfer 2023/24. Roedd y penawdau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu pwysau galw a chwyddiant heriol, gan gynnwys mwy o alw mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion yn ogystal ag ysgolion, a adlewyrchwyd yn gyffredinol mewn defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn o £6.768m a £6.5m arall ar gyfer ysgolion.
- Mae'r adroddiad yn nodi cyllideb ddiwygiedig sy'n dileu Ad-daliadau Corfforaethol, yn ogystal â nifer o gamau i'w cymryd yn ystod y flwyddyn i helpu i liniaru'r gorwario sy'n tyfu a diogelu cronfeydd wrth gefn, roedd hyn yn cynnwys rheolaethau llymach ar fenthyg, gwario a recriwtio ac adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf.
- Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol a sylweddol wedi'u gosod ar gyfer 2023/24, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud a oedd yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion Corfforaethol. Roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn iach o hyd ond roedd nifer fawr ohonynt wedi'u hymrwymo i gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Defnyddiwyd y rhain ar gyfer ariannu blaenoriaethau'r Cyngor, rheoli risg hysbys a chyllidebau wedi'u clustnodi yn ogystal â buddsoddiad. Roedd trosglwyddiadau yn cynnwys y meysydd hynny oedd angen gweld pwysau'n cyrraedd man gwastad dros y tymor canolig, h.y. ynni a digartrefedd. Fodd bynnag, rhagwelwyd mai £57m fyddai'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, i lawr o £110m ar ddechrau y flwyddyn.
- O ran sefyllfa diwedd y flwyddyn ar gyfer y meysydd hynny yng nghylch gwaith y Pwyllgor, amlinellwyd nifer o feysydd perthnasol i'r Pwyllgor ar y sefyllfa diwedd y flwyddyn a ragwelwyd, gan gynnwys tanwariant y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (£92k), sefyllfa adennill costau ddisgwylidig ar gyfer y Gronfa Gyffredinol - Tai (gan ddefnyddio £45k o gronfeydd wrth gefn), ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl / Tai Preifat rhagwelwyd y byddai'r gwasanaeth ryw £92k dros gyllideb eleni gyda gofyniad i wrthbwysu hynny gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Roedd disgwyl i'r CRT a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) fod ag alldro ar darged.
- Roedd pwysau amrywiol ar gyfer y gwasanaethau hynny o fewn cylch gwaith y Pwyllgor wedi'u rhagweld ar gyfer y GCA, y GRhR (yn ymwneud â'r gwasanaeth cyfan, nid dim ond Cyngor Bro Morgannwg) a'r Gronfa Gyffredinol - Tai (gan gynnwys llety gwesty i bobl ddigartref i gefnogi ffoaduriaid o Affganistan a Wcráin a TGCh).
- Roedd arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y gwasanaethau hynny'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hefyd yn cynnwys, gydag enghreifftiau o'r GRhR, Tai Preifat a'r Gronfa Gyffredinol - Tai, h.y. gostyngiad o £21k yng nghyfraniad sylfaenol y Fro i'r GRhR.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

613 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2023/24 (CAT) –

Amlinellodd yr adroddiad cryno ar berfformiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai, gynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (Ch2) (1 Ebrill i 30 Medi 2023) tuag at gyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch2 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd.

Oherwydd yr heriau capasiti cyfredol o fewn y Tîm Perfformiad Corfforaethol, roedd fformat Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol y chwarter hwn (Ch2) wedi'i ddiwygio dros dro, er mwyn galluogi'r Cyngor i barhau i roi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A grynodedb o'r cynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cyngor yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel. Roedd hyn yn cynnwys yr hyn yr oedd y Cyngor wedi'i gyflawni i feysydd gwella a meysydd sy'n dod i'r amlwg o ran datblygu a phryder gan gyd-fynd ag Amcanion Lles y Cyngor. Roedd cyflawniadau a heriau nodedig yn cynnwys llwyddiant cylchlythyr tenantiaid newydd y Fro, cynllun prentisiaeth y GRhR, erlyniadau 'twyll fasnachwyr', heriau o ran cyfyngiadau cyllidebol a phrinder tir ar gyfer datblygu tai cymdeithasol yn y dyfodol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cadeirydd ar ddarparu safle Sipsiwn a Theithwyr posibl yn unol â chanfyddiadau Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2023, er nad oedd unrhyw safleoedd newydd wedi'u cyflwyno, roedd cyfleoedd newydd yn cael eu hystyried ac roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i gael mwy o ddeialog gyda'r gymuned dan sylw ynghylch safleoedd posibl trwy gyfryngwr i helpu i chwalu rhwystrau.
- Cododd y Cyngorydd Hanks nifer o ymholiadau ynghylch ymgysylltu digidol, y Siop Un Stop a throsglwyddo ceir pwll y Cyngor i gerbydau trydan. O ran ymgysylltu digidol, esboniwyd bod y Tîm Tai yn defnyddio'r grŵp o wirfoddolwyr 'Cyfeillion Digidol' i helpu tenantiaid y Cyngor i ymgysylltu'n ddigidol a bod ffrydiau gwaith eraill yn cael eu cynnal mewn mannau eraill yn y Cyngor yn hyn o beth. Mae'r pwysau ariannol a welwyd gyda'r Siop Un Stop yn adlewyrchu'r pwysau mwy cyffredinol a welwyd gyda gwasanaethau cymorth tai a gomisiynwyd. Nid oedd cyllid gan Lywodraeth Cymru (trwy'r Grant Cymorth Tai (GCT) yn cael ei dorri ar hyn o bryd ond nid oedd yn cadw i fyny â chostau a chwyddiant cynyddol ac roedd ymdrechion i atal unrhyw

doriadau yn y GCT ac felly i gymorth tai. Roedd y Siop Un Stop yn darparu ystod ardderchog o wasanaethau cymorth tai a 'brysbennu' ar gyfer cymorth a chynghor ar lety a materion cysylltiedig, ond byddai pwysau cyllidebol ac unrhyw doriadau yn effeithio ar y gwaith o ddarparu a blaenoriaethu'r gwasanaethau hyn. O ran y newid i gerbydau trydan, roedd adroddiad i fod i fynd i'r Cabinet, gyda mwy o wybodaeth i'w cheisio i'r Aelodau.

- Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy am ganran tenantiaid y Cyngor sy'n rhan o gynlluniau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor fel gweithgorau tenantiaid a sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â thenantiaid y Cyngor nad ydynt yn gallu cael mynediad at dechnoleg digidol. O ran cynlluniau tenantiaid y Cyngor, roedd y Cyngor yn bwriadu ehangu'r rhain, drwy 'ddiwrnodau blasu' a recriwtio a diddordeb trwy'r data proffilio tenantiaid, yn ogystal ag ailddechrau'r Grŵp Tai Gwarchod. O ran ymgysylltu'r Cyngor â thenantiaid, defnyddiwyd dulliau digidol a heb fod yn ddigidol, h.y. ffocws o'r newydd, ar ôl y pandemig, i staff Tai fod yn weladwy a mynd i gymunedau lleol ac ystadau'r Cyngor yn gorfforol ar gyfer archwiliadau arferol, ac ati.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 2 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2023/24 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) NODI'r camau adferol i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

614 YMGYNGHORIAD – PAPUR GWYN RHOI TERFYN AR DDIGARTREFEDD YNG NGHYMRU (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus, a'i ddiben oedd i'r Pwyllgor ystyried y newidiadau arfaethedig a gyflwynwyd gan LIC a nodi effeithiau allweddol a fyddai'n llywio ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- O ran cefndir, roedd LIC yn ymgynghori ar gynigion i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru. Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn yn rhan o broses drawsnewid hirdymor i'r system digartrefedd a thai, fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.
- Gofynnwyd i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol i'r cynigion, ac roedd copi i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad. Amlygwyd crynodeb o'r cynigion allweddol yng nghorff yr adroddiad eglurhaol.
- Y bwriad, yn dilyn y broses ymgynghori, oedd i ymateb y Cyngor i'r cynigion gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i gyflwyno i LIC erbyn 16 Ionawr 2024.

- Nodwyd y cynigion dan bum thema allweddol, a oedd yn cynnwys: Diwygio deddfwriaeth digartrefedd graidd gyfredol; rôl ehangach gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd; cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur; gwella mynediad i lety ac, yn olaf, sut y gellid gweithredu'r newidiadau hynny.
- Newidiadau ac effeithiau allweddol i'r ffordd yr oedd Cyngor Bro Morgannwg yn ymdrin â thai a digartrefedd pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, h.y. diddymu'r prawf bwriadoldeb ac angen â blaenoriaeth ynghylch darpariaeth tai a digartrefedd, yn ogystal â'r heriau o ran sicrhau adnoddau ar gyfer y cynigion yng ngoleuni'r cyfyngiadau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu o ran tai, llety a'r galw cysylltiedig. Er bod LIC wedi awgrymu y byddai'r rhain yn gynnigion 'uchelgeisiol' byddent yn dal i gael eu rhoi mewn deddfwriaeth a fyddai'n rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i'r Fro.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Dywedodd y Cadeirydd er bod dyheadau'r cynigion yn y Papur Gwyn yn glodwiw, roedd pryderon clir ynghylch sut y byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gallu dod o hyd i'r adnoddau ar gyfer y rhain a'u rheoli.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at yr heriau a'r anawsterau posibl wrth fynd ar drywydd y cynnig o ddarparu tai â chymorth i bobl dan 25 oed bob amser gydag adnoddau cyfredol y Cyngor a mynediad i lety priodol, a fyddai hefyd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol.
- Sylwodd y Cynghorydd Payne hefyd ar y gwrthdaro posibl yn y Papur Gwyn ynghylch cynigion yn ymwneud â'r Cynlluniau Tai Personol (CTPau) ac opsiynau a dewisiadau tai unigolion.
- Gofynnodd y Cynghorydd Payne am y cyfyngiadau a'r meini prawf 'ymddygiad annerbyniol' yn y Papur Gwyn a'r adroddiad, gan gynnwys a oedd staff Tai'r Cyngor wedi'u hyfforddi'n addas ac yn wybodus am drawma er mwyn delio â phobl ddigartref a allai fod yn dioddef o drawma amrywiol ynghylch eu hamgylchiadau a heriau ymddygiadol ac anghenion cymhleth ac a oedd staff o'r fath yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi'n ddigonol. Esboniwyd bod staff Tai wedi cael hyfforddiant priodol, a'u bod yn wybodus am drawma, a bod ganddynt yr empathi a'r profiad i gefnogi pobl ddigartref gymaint â phosibl. Byddai ymddygiad annerbyniol yn golygu gweithredoedd a fyddai'n debygol o arwain at orchymyn ildio meddiant pe bai person yn denant. Roedd ymgysylltu â'r staff a oedd yn rhan o'r broses hon, roeddent yn cael cynnig cymorth ac yn cael eu monitro gan reolwyr llinell ac eraill i sicrhau y gallant barhau i gyflawni eu rôl a'u cymorth hanfodol gyda phobl ddigartref.
- Sylwodd y Cynghorydd Haines ar y ddyletswydd statudol a roddwyd ar Awdurdodau Lleol i lunio CTP yn nodi camau i'w cymryd i sicrhau llety ynghyd â dyletswydd i adolygu CTPau bob 8 wythnos neu fwy pan oedd newidiadau mewn amgylchiadau. Teimlai y gallai hyn roi pwysau gormodol ar staff y Cyngor yn y Tîm Datrysiadau Tai oherwydd y niferoedd digartrefedd cyfredol. Awgrymodd y dylai'r ddyletswydd i adolygu ddechrau ar gyfnod uwch o amser, h.y. 12 wythnos ac yna gweithio tuag at adolygiad 8 wythnos. Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus, mewn ymateb, at yr heriau'n ymwneud â'r cynnig hwn a'i weithredu, gyda dim ond tîm cymharol fach o staff y Cyngor ac adnoddau cyllidebol cyfyngedig ac

adnoddau eraill ar gael. Roedd y Cyngor hefyd yn ceisio grymuso pobl drwy eu CTPau a'u helpu i fod yn gyfrifol am eu hamgylchiadau.

- Teimlodd y Cynghorydd Haines hefyd y byddai effaith andwyol ar bobl ag anabledau ac anghenion gofal penodol drwy ddiddymu'r prawf bwriadoldeb ac angen â blaenoriaeth, gan y byddai hyn yn effeithio'n ormodol ar eu hanghenion penodol ac yn effeithio ar eu gallu i fod yn agos at rwydweithiau cymorth lleol, yn ogystal â'r cynigion gan anwybyddu'r rhwystrau ychwanegol a wynebir gan bobl o'r fath. I ymateb, dywedwyd y byddai blaenoriaethu pawb yr un fath yn golygu na ellid blaenoriaethu unrhyw un gydag effaith anfwriadol ar y rhai ag anghenion gofal ac anabled a oedd angen tai.
- Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod yn bwysig bod gan LIC ddealltwriaeth sylfaenol o'r sefyllfa gyfredol a'r pwysau y mae Cyngor Bro Morgannwg, Awdurdodau Lleol eraill Cymru ac, yn anuniongyrchol, cyrff cyhoeddus eraill amrywiol h.y. y GIG, yn eu hwynebu o ran tai a digartrefedd, yn ogystal â'r angen i ddiffinio'r amserlenni cysylltiedig i weithredu cynigion y Papur Gwyn. Esboniwyd bod yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys trafodaethau gyda phartneriaid a chyrff sector cyhoeddus amrywiol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ynghyd â thrafodaethau parhaus gyda LIC i bwysleisio'r heriau a wynebir wrth weithredu'r cynigion hyn h.y. y gostyngiad yn swm y llety sydd ar gael yn y sector preifat, mwy o alw am dai oherwydd yr argyfwng costau byw, ac ati.
- Nododd y Cynghorydd Lloyd-Selby yr angen i bwysleisio i LIC, er bod y cynigion hyn yn uchelgeisiol, pe baent yn dod yn ddeddfwriaeth, byddai'r rhain yn gosod dyletswyddau a phwysau statudol ychwanegol ar y Cyngor a'i adnoddau, er bod y Cyngor yn cymryd rhai camau eisoes.
- Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby a allai ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn gael ei rannu â'r Pwyllgor, ac i'r Pwyllgor dderbyn unrhyw ddiweddariadau dilynol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

CYMERADWYWYD – Cynnwys sylwadau canlynol y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad:

- Er bod dyheadau'r cynigion yn y Papur Gwyn yn glodwiw, roedd pryderon clir ynghylch sut y byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gallu rhoi adnoddau a rheoli'r rhain.
- Yr heriau a'r anawsterau posibl wrth fynd ar drywydd y cynnig o ddarparu tai â chymorth i bobl dan 25 oed bob amser o dan adnoddau cyfredol y Cyngor a mynediad i lety priodol, a fyddai hefyd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol.
- Roedd gwrthdaro posibl yn y Papur Gwyn ynghylch cynigion yn ymwneud â'r Cynlluniau Tai Personol (CTP) ac opsiynau a dewisiadau tai unigolion.
- O ran y ddyletswydd statudol a roddwyd ar Awdurdodau Lleol i lunio CTP yn nodi camau i'w cymryd i sicrhau llety ynghyd â dyletswydd i adolygu CTP bob 8 wythnos neu fwy pan oedd newidiadau i amgylchiadau, teimlwyd y gallai hyn roi pwysau gormodol ar staff y Cyngor yn y Tîm Datrysiadau Tai oherwydd niferoedd digartrefedd cyfredol. Awgrymwyd y dylai'r ddyletswydd i adolygu ddechrau ar gyfnod uwch o amser, h.y. 12 wythnos ac yna gweithio tuag at adolygiad 8 wythnos.

- Teimlwyd y byddai effaith andwyol ar bobl ag anableddau ac anghenion gofal penodol drwy ddiddymu'r angen â blaenoriaeth a'r prawf bwriadoldeb, gan y byddai hyn yn effeithio'n ormodol ar eu hanghenion penodol ac yn effeithio ar eu gallu i fod yn agos at rwydweithiau cymorth lleol yn ogystal â'r cynigion, gan anwybyddu'r rhwystrau ychwanegol a wynebir gan bobl o'r fath.
- Roedd yn bwysig bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth sylfaenol o'r sefyllfa bresennol a'r pwysau y mae Cyngor Bro Morgannwg ac Awdurdodau Lleol eraill Cymru yn eu hwynebu o ran tai a digartrefedd, yn ogystal â'r angen i ddiffinio'r amserlenni cysylltiedig i weithredu cynigion y Papur Gwyn.
- Pwysleisio i Lywodraeth Cymru, er bod y cynigion hyn yn uchelgeisiol, pe baent yn dod yn ddeddfwriaeth, byddai'r rhain yn gosod dyletswyddau a phwysau statudol ychwanegol ar y Cyngor a'i adnoddau, er bod y Cyngor yn cymryd rhai camau eisoes.
- Bod ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor, a'i fod yn derbyn unrhyw ddiweddariadau dilynol.

Rheswm dros yr argymhellion

Sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei hystyried fel rhan o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.